

Tasg 3

Dau lun

Cwrtais neu anghwrtais?

1. Ydych chi'n meddwl ei bod hi'n iawn bod pobl yn defnyddio'u ffonau symudol pan fyddan nhw'n cymdeithasu gyda phobl eraill?

Rhowch resymau dros eich ateb, e.e. meddyliwch am:

- pam maen nhw'n defnyddio'r ffonau symudol
- sut mae hyn yn effeithio ar bobl eraill.

2. Sut rydych chi'n teimlo pan fyddwch chi'n ceisio cael cwrs wyneb yn wyneb gyda rhywun ac mae'r person yna'n defnyddio'i ffôn drwy'r amser?

Ydych chi'n dweud rhywbeth wrth y person sy'n defnyddio'i ffôn?

3. Ticiwch yr ateb cywir isod:

Pan fyddwch chi'n mynd allan gyda ffrinidau neu gyda'r teulu, ydych chi'n ...?

- a. defnyddio'r ffôn drwy'r amser
- b. edrych ar y ffôn bob hyn a hyn
- c. rhoi'r ffôn i gadw ond yn meddwl, "Tybed oes rhywun yn trio cysylltu?"
- ch. rhoi'r ffôn i gadw ac anghofio amdano

Beth maen hyn yn dweud amdanoch chi? e.e.

**Ydych chi'n
gaeth i'ch
ffôn?**

**Ydych chi'n
defnyddio'ch
ffôn mewn
ffordd gyfrifol?**

**Ydych chi'n
canolbwyntio mwy
ar eich ffôn na'r
bobl sy yn eich
cwmni chi?**